# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 11 Mawrth 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

9 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Nick Ramsay (Mynwy):** Pa ganran o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth a Gwerth Ychwanegol Crynswth Cymru y mae'r sector gwirfoddol yn cyfrannu tuag ato? (WAQ53631)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Ni chaiff unrhyw amcangyfrifon swyddogol eu gwneud o'r gyfran o Werth Ychwanegol Crynswth a gyfrifir gan y sector gwirfoddol.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyswllt rheilffordd cyflym rhwng Cymru a Llundain? (WAQ53632)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yn ddiweddar rwyf wedi trafod hyn gyda'r Arglwydd Adonis a byddaf yn parhau fy nhrafodaethau ag ef pan fydd rhagor o ddata cost ac arfarnu ar gael.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Pa welliannau a wnaethpwyd i Reilffordd Gororau Cymru ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53633)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ariannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru wasanaeth trên uniongyrchol dyddiol (un ym mhob cyfeiriad) rhwng Caerdydd a Chaergybi cyn 2005. Ychwanegodd y gwasanaeth trên rheolaidd dwy awr rhwng Caerdydd a Chaergybi a gyflwynwyd yn 2005 saith gwasanaeth y dydd ym mhob cyfeiriad i linell y Mers.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa sylwadau a thrafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y fferm wynt arfaethedig yn Reeves Hill ar y ffin rhwng Powys a Swydd Henffordd? (WAQ53615)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Rwyf wedi cael nifer fach o gynrychioliadau yn gofyn i mi gefnogi ceisiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol alw'r cais am y fferm wynt i mewn. Gwrthodais wneud hynny gan yr ystyrir y cais gan lywodraeth y DU ar sail y materion a godwyd, yn hytrach na phwy yw'r sawl sy'n gwneud cais. Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau ar y mater hwn.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddiweddaru arweiniad am sŵn ac effeithiau gweledol yng nghyswllt y pellter rhwng preswylfeydd a thyrbinau gwynt? (WAQ53616)

**Jane Davidson:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i ddiweddaru'r canllawiau yn syth. Bydd gwaith ar ddiwygio TAN 8 yn dechrau yn hwyrach eleni ar ôl llunio'r Strategaeth Ynni.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint o lwybrau ceffylau sydd wedi cael eu creu ym Mynwy o ganlyniad i gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru er 1999? (WAQ53630)

**Jane Davidson:** Ers 1999 deallaf nad yw Cyngor Sir Fynwy wedi creu unrhyw lwybrau ceffylau newydd. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, mae wedi defnyddio arian Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llwyddiannus i roi Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a'i Gynllun Gwella Hawliau Tramwy ar

waith i wella ei rwydwaith o lwybrau ceffylau cyfredol. Er enghraifft deallaf iddo ailagor 15 o lwybrau ceffylau a oedd wedi'u rhwystro o'r blaen.

Yn ogystal â hyn, mae Cynllun Gwella Hawliau Tramwy y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i nodi a datblygu llwybrau cylch lleol, gan gynnwys i farchogion a beicwyr. Fel rhan o hyn, deallaf fod dau gynllun ar gyfer llwybrau ceffylau yn cael eu hystyried yn Llanbadog a Portskewett. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Casnewydd ar wella mynediad y cyhoedd i'r arfordir gan ddefnyddio arian a ddarperir o dan Raglen Gwella Mynediad i'r Arfordir Llywodraeth y Cynulliad. Deallaf fod y ddau awdurdod wrthi'n ystyried uwchraddio rhai adrannau o'r llwybr arfordirol yn llwybrau ceffylau o dan y rhaglen hon.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar brydau bwyd ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53575)

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu gwybodaeth am hyn o ran Gweinidogion y Cabinet.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar deithio mewn ceir ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53576)

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar deithio mewn tacsis ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53583)

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar deithio mewn ceir wedi'u llogi ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53584)

**Andrew Davies:** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu gwybodaeth am hyn o ran Gweinidogion y Cabinet.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar daliadau morgais ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53577)

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar drwyddedau teledu er 1999? (WAQ53578)

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar gelfi ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53579)

**Andrew Davies:** Dim.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar deithio ar drenau ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53580)

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar gostau gwestai ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53582)

**Andrew Davies:** Dim ond wedi'i chasglu'n ganolog o ran Gweinidogion y Cabinet y mae'r wybodaeth hon ers dechrau'r trydydd Cynulliad. Ers y dyddiad hwn aethpwyd i'r costau canlynol.

| | Trên | Gwesty |
|---|---|---|
| Mai 2007 i Fawrth 2008* | £13,662.50 | £11,265.95 |
| Ebrill 2008 i Ionawr 2009* | £11,913.30 | £6,508.40 |

*Mae gwariant yn cynnwys costau yn y DU a Thramor.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar fonysau staff ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53581)

**Andrew Davies:** Nid yw Gweinidogion y Cabinet yn atebol am wariant o ran bonysau staff, felly dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau ar y mater hwn i'r Ysgrifennydd Parhaol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Fesul Ymddiriedolaeth GIG ac ym mhob un o'r 3 blynedd diwethaf, faint o driniaethau llawfeddygol a wnaethpwyd i atal archwaeth cleifion gordew? (WAQ53613)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Oherwydd y nifer fach dan sylw, dim ond y cyfanswm y gellir ei roi yn y tabl canlynol. Cynhaliwyd pob un ond dau o'r llawdriniaethau yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (Ymddiriedolaethau GIG Bro Morgannwg ac Abertawe gynt).

**Nifer y llawdriniaethau a gynhaliwyd i atal archwaeth bwyd mewn cleifion ordrwm**

| | **2005-06** | **2006-07** | **2007-08** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 30 | 7 | 11 |

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru.
Codau Diagnostig / Gweithdrefn a gynhwysir:
**Codau Diagnosis a Ddefnyddir (Unrhyw sôn)**
E66 Gordrwm
**Codau Gweithdrefn a Ddefnyddir (Unrhyw sôn)**
G30 Llawdriniaethau plastig ar y stumog
G28.4 Stumog-drychiad a switsh dwodenol
G28.5 Stumog-drychaid

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Beth oedd cyfanswm nifer y triniaethau IVF a wnaethpwyd gan bob ymddiriedolaeth GIG ym mhob un o'r 3 blynedd diwethaf? (WAQ53626)

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Beth oedd cyfanswm cost y rhaglenni IVF i bob ymddiriedolaeth GIG ym mhob un o'r 3 blynedd diwethaf? (WAQ53627)

**Edwina Hart:** Rhoddir cyfanswm y gost a chyfanswm nifer y triniaethau fesul Ymddiriedolaeth y GIG ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf isod. Mae Comisiwn Iechyd Cymru hefyd yn comisiynu 120 cylchred o IVF/ICSI bob blwyddyn yng Nghlinig Merched Llundain.

| **2008/09** | | |
|---|---|---|
| **Ymddiriedolaeth** | **Gwerth y Contract** | **Cyfanswm nifer y triniaethau** |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 884,790 | 270 |

| | | |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Sefydliad Merched Lerpwl | 404,119 | 95 |
| Ymddiriedolaeth GIG yr Amwythig a Telford | 124,356 | 30 |
| **Cyfanswm:** | **1,413,265** | **395** |
| | | |
| **2007/08** | | |
| **Darparwr** | **Alldro 2007/08** | **Cyfanswm nifer y triniaethau** |
| Ymddiriedolaeth GIG Sefydliad Merched Lerpwl | 561,198 | 135 |
| Ymddiriedolaeth GIG yr Amwythig a Telford | 125,575 | 31 |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 819,200 | 256 |
| Cyfanswm: | **1,505,973** | **422** |
| | | |
| **2006/07** | | |
| **Darparwr** | **Alldro 2006/07** | **Cyfanswm nifer y triniaethau** |
| Ymddiriedolaeth GIG Sefydliad Merched Lerpwl | 624,000 | 135 |
| Ymddiriedolaeth GIG yr Amwythig a Telford | 95,000 | 31 |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 925,560 | 270 |
| Cyfanswm: | **1,644,560** | **436** |

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffordd y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwerthuso effaith dileu ffioedd presgripsiwn? (WAQ53635)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru bob amser wedi dweud bod presgripsiynau am ddim yn fuddsoddiad hirdymor ac y bydd gwir fanteision iechyd gwell a chostau is i'r GIG o ran triniaeth ysbyty y gellir ei hosgoi yn dod i'r amlwg gydag amser. Yn y tymor byrrach rydym yn gwerthuso tueddiadau mewn galw a'r effaith ar werthiannau dros y cownter sy'n dangos y rheolir presgripsiynau am ddim yn dda gan feddygon teulu ac ymarferwyr eraill a bod pobl yn ymddwyn yn gyfrifol o ran prynu meddyginiaethau dros y cownter yn hytrach na'u cael ar bresgripsiwn. Wrth gwrs, byddwn yn parhau i fonitro tueddiadau'n ofalus ond ar y sail hon yn unig rwy'n argyhoeddedig mai cyflwyno presgripsiynau am ddim oedd y peth iawn i'w wneud yng Nghymru ac rydym yn ymrwymedig i'w cynnal.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Pa dystiolaeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei darganfod am ddefnydd amhriodol o bresgripsiynau am ddim er mwyn osgoi talu am gyffuriau y gellir eu prynu dros y cownter? (WAQ53636)

**Edwina Hart:** Dim. Mae gwaith monitro gan adnodd Iechyd Cyhoeddus Fferyllol y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ar effaith dileu'r taliadau am bresgripsiynau yng Nghymru yn cadarnhau hyn.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr effaith ar ganlyniadau iechyd cleifion, ac ar anghydraddoldebau iechyd, wrth ddirwyn ffioedd presgripsiwn i ben yn raddol? (WAQ53637)

**Edwina Hart:** Mae'n rhy gynnar asesu effaith lawn y broses o ddileu taliadau am bresgripsiynau ar y cam hwn. Fodd bynnag, rwy'n argyhoeddedig bod cyflwyno presgripsiynau am ddim a sicrhau tegwch o ran cael meddyginiaethau i bawb yn enghraifft glir o'r ffordd y mae datganoli yn galluogi Cymru i feddwl

am ddatrysiadau Cymreig i amgylchiadau Cymreig ac yn yr achos hwn, gwneud ymdrech ar y cyd i fynd i'r afael â salwch a chyflyrau cronig ymhlith y boblogaeth.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith presgripsiynau am ddim ar gleifion yn cydymffurfio â threfniadau ar gyfer triniaeth a ragnodir gan eu meddygon? (WAQ53638)

**Edwina Hart:** Mae dileu taliadau am bresgripsiynau yn rhan allweddol o ymdrech ar y cyd Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau tegwch o ran cael meddyginiaeth i bob claf yng Nghymru. Mae'r fenter hon yn rhoi'r cyfle i gleifion gael y triniaethau sydd eu hangen arnynt a chyflawni eu dyletswydd o ran hunanofal drwy fodloni gofynion triniaeth a ragnodir gan feddygon heb rwystr ariannol.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Sut mae'r Gweinidog yn monitro sut mae Byrddau Iechyd Lleol yn gweithredu'r Cyfarwyddebau ar Ddatblygu a Chomisiynu Gwasanaethau : Cyflyrau Anadlol Cronig? (WAQ53639)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd y mae Byrddau Iechyd Lleol yn ei wneud o ran gweithredu'r Cyfarwyddebau ar Ddatblygu a Chomisiynu Gwasanaethau : Cyflyrau Anadlol Cronig? (WAQ53640)

**Edwina Hart:** Roedd gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) gofnodi cynnydd yn erbyn y camau a nodwyd yn y Cyfarwyddebau ym mis Medi 2008. Cyflwynodd pob BILl adroddiad cynnydd a noda'r canlyniadau i bob un wneud cynnydd o rqn y camau, er bod ychydig o amrywiaeth yn y rhain ledled Cymru. Mae BILlau wedi'u hysbysu y byddaf yn ailadrodd yr archwiliad ym mis Medi 2009 pan fyddaf yn disgwyl gweld gwelliannau gwirioneddol a chyson i wasanaethau lleol y gall cleifion eu profi.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Sawl Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru sydd ar y trywydd i 'sicrhau y bydd gwybodaeth addas am hybu iechyd a chyngor ar iechyd anadlol ar gael yn hawdd i'r cyhoedd a chaiff ei thargedu yn arbennig at bobl â chyflyrau anadlol cronig ac mewn categorïau risg uchel eraill' erbyn mis Rhagfyr 2008 fel y nodir yn y Cyfarwyddebau ar Ddatblygu a Chomisiynu Gwasanaethau : Cyflyrau Anadlol Cronig? (WAQ53641)

**Edwina Hart:** Roedd gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) gofnodi cynnydd yn erbyn y camau a nodwyd yn y Cyfarwyddebau ym mis Medi 2008. Dengys y canlyniadau fod 18 o BILlau wrthi'n darparu cyngor a gwybodaeth hybu iechyd i'r cyhoedd ar iechyd anadlol.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Sawl Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi datblygu Cynlluniau Gweithredu Anadlol Lleol yn ôl cyfarwyddyd y Cyfarwyddebau ar Ddatblygu a Chomisiynu Gwasanaethau : Cyflyrau Anadlol Cronig? (WAQ53642)

**Edwina Hart:** Roedd gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) gofnodi cynnydd yn erbyn y camau a nodwyd yn y Cyfarwyddebau ym mis Medi 2008. Dengys y canlyniadau fod 14 o BILlau wedi sefydlu Cynlluniau Gweithredu Lleol i drin cyflyrau Anadlol Cronig.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i effaith ailstrwythuro'r GIG yng Nghymru ar weithredu'r Cyfarwyddebau ar Ddatblygu a Chomisiynu Gwasanaethau : Cyflyrau Anadlol Cronig a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2007? (WAQ53643)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Pa effaith y bydd ailstrwythuro'r GIG yng Nghymru yn ei chael ar weithredu'r Cyfarwyddebau ar Ddatblygu a Chomisiynu Gwasanaethau : Cyflyrau Anadlol Cronig? (WAQ53644)

**Edwina Hart:** Gyda chreu saith Bwrdd Iechyd Lleol newydd yng Nghyrmu disgwyliaf weld gwelliant o ran gweithio mewn partneriaeth, canlyniadau iechyd gwell a mynediad cynt i wasanaethau mwy integredig ym mhob maes o ofal iechyd. Ar y sail hon, disgwyliaf y dylai'r broses o ailstrwythuro'r GIG hefyd helpu i wella cyflymder a chysondeb y camau gweithredu allweddol a bennwyd yn y Cyfarwyddebau Anadlol.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau, a nodwyd yn y Cyfarwyddebau ar Ddatblygu a Chomisiynu Gwasanaethau : Cyflyrau Anadlol Cronig, i gynnwys categori ar gyfer hunanreolaeth i sicrhau mynediad at gyrsiau'r rhaglen Cleifion Arbenigol ar gyfer pobl â Chyflyrau Anadlol Cronig erbyn mis Gorffennaf 2008? (WAQ53645)

**Edwina Hart:** Roedd gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) gofnodi cynnydd yn erbyn y camau a nodwyd yn y Cyfarwyddebau ym mis Medi 2008. Dengys y canlyniadau fod pob un o'r 22 BILlau wedi cynnwys categori ar gyfer hunanreoli o fewn cynlluniau gofal unigol gan sicrhau mynediad i Raglenni Cleifion Arbenigol.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Sawl cynllun integredig sydd wedi cael eu llunio hyd yn hyn i sicrhau y bydd 'cynlluniau rhyddhau ar y cyd a chynlluniau rhyddhau o'r ysbyty / camu i lawr a gynorthwyir ar gyfer pobl â Chyflyrau Anadlol Cronig' mewn grym erbyn mis Ebrill 2008 fel y nodir yn y Cyfarwyddebau ar Ddatblygu a Chomisiynu Gwasanaethau : Cyflyrau Anadlol Cronig? (WAQ53646)

**Edwina Hart:** Roedd gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) gofnodi cynnydd yn erbyn y camau a nodwyd yn y Cyfarwyddebau ym mis Medi 2008. Dengys y canlyniadau fod 21 BILl bellach yn darparu cynlluniau rhyddhau ar y cyd a chynlluniau rhyddhau o ysbyty â chymorth i bobl â chyflyrau anadlol cronig.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Mewn sawl Bwrdd Iechyd Lleol y mae llwybrau gofal wedi cael eu sefydlu a'u rhoi ar waith, fel y nodir yn y Cyfarwyddebau ar Ddatblygu a Chomisiynu Gwasanaethau : Cyflyrau Anadlol Cronig? (WAQ53647)

**Edwina Hart:** Roedd gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) gofnodi cynnydd yn erbyn y camau a nodwyd yn y Cyfarwyddebau ym mis Medi 2008. Dengys y canlyniadau fod llwybrau gofal ar gyfer cyflyrau anadlol cronig wedi'u sefydlu a'u gweithredu mewn 12 BILl.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog nodi sawl apêl sydd wedi cael eu cyflwyno ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf gan gleifion sy'n llwyddo i dderbyn cwrs pellach o driniaeth IVF ar sail amgylchiadau eithriadol a beth oedd yr amgylchiadau hynny? (WAQ53648)

**Edwina Hart:** Mae Panel Comisiynu Cleifion Unigol Comisiwn Iechyd Cymru yn ystyried pob apêl yn unigol. Nid oes canllawiau penodol ar beth sy'n cyfrif fel amgylchiadau eithriadol.
Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r apeliadau a gafwyd gan y Panel Comisiynu Cleifion Unigol yn y tair blynedd diwethaf gan gleifion yn gwneud cais am gylchred arall o IVF:

| Dyddiad | Nifer yr Apeliadau a Gymeradwywyd |
|---|---|
| 01/04/2006 – 31/03/2007 | 0 |
| 01/04/2007 – 31/03/2008 | 2 |
| 01/04/2008 - Presennol | 1 |

Ni roddwyd gwybodaeth bellach am amgylchiadau unigol y ceisiadau hyn oherwydd gellir defnyddio'r wybodaeth hon i adnabod yr unigolion hynny.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion 'cynlluniau cynyddu incwm' a ddefnyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ53620)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Mae sicrhau'r incwm mwyaf posibl yn nodwedd allweddol o'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ddrafft. Mae'n hanfodol sicrhau bod pobl yn cael y budd-daliadau sy'n ddyledus iddynt, yn fwy byth nawr nag ar unrhyw adeg yn y degawd diwethaf. Rydym yn cydnabod hynny ac yn cefnogi nifer o raglenni i fynd i'r afael â hyn.

- ers 2001-02 rydym wedi cefnogi canolfannau cyngor ar bopeth i ddarparu'r cynllun Cyngor Gwell, Iechyd Gwell mewn practisau meddygon teulu ledled Cymru;
- yn 2008 gwnaethom lansio rhaglen i hyrwyddo'r budd-dal treth gyngor a'r budd-dal tai;
- eleni byddwn yn lansio rhaglen newydd gwerth £500,000 i hyrwyddo budd-daliadau lles i blant ag anabledd.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Sut caiff llwyddiant/effeithiolrwydd y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ei fesur? (WAQ53621)

**Brian Gibbons:** Mae gofyn i bob Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf gwblhau Adroddiadau Monitro Blynyddol. Mae'r adroddiadau hyn yn casglu ystod o wybodaeth am y Bartneriaeth unigol a'i gwaith yn yr ardal leol, o dan chwe thema'r Fframwaith Gweledigaeth. Mesurir cynnydd yn erbyn canlyniadau a bennir gan y Bartneriaeth ar gyfer y cyfnod monitro. Gellir cyfuno'r wybodaeth hon gan bob Partneriaeth i ddangos y sefyllfa ar lefelau gofodol amrywiol hyd at lefel genedlaethol ar amrywiaeth o faterion.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch ei hymdrech i ddileu tlodi plant drwy'r system treth a budd-daliadau a rhaglenni o fudd-dâl i waith? (WAQ53623)

**Brian Gibbons:** Mae llawer o'r dulliau o fynd i'r afael â thlodi incwm yn nwylo Llywodraeth y DU ac rwyf yn achub ar bob cyfle i godi pryderon o ran tlodi plant. Ar 5 Chwefror ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau yn cyfleu barn ein Grŵp o Arbenigwyr ar Dlodi Plant am y buddsoddiad sydd ei angen mewn budd-daliadau allan o waith yn ystod yr alldro economaidd hwn.

Ar 10fed Mawrth byddaf yn cael trafodaeth â Stephen Timms AS, Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys, i drafod Mesur Tlodi Plant arfaethedig y DU. Yn ogystal â hyn, mae fy swyddogion yn cynnal cyfarfodydd chwarterol ag arweinwyr ym maes tlodi plant o bob cwr o'r DU fel rhan o'r Fforwm Pedair Gwlad ar Dlodi Plant i drafod ystod o faterion, gan gynnwys y rhai hynny sy'n annatganoledig.

**Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad eglwysi i ddileu tlodi plant? (WAQ53624)

**Brian Gibbons:** Mae gwaith grwpiau ffydd, gan gynnwys eglwysi, yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig ac sydd ar y cyrion gyda theuluoedd a phlant sy'n agored i niwed yn gwneud cyfraniad pwysig i'n nod o fynd i'r afael â phob math o dlodi plant yng Nghymru.

Er enghraifft, mae llawer o grwpiau ffydd yn chwarae rhan weithredol mewn Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ac yn helpu i ddarparu ystod eang o weithgareddau yn y gymuned. Mae llawer o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn cynnig gweithgareddau fel grwpiau mam a'i phlentyn, grwpiau chwarae, cymorth i deuluoedd, clybiau gwyliau ac ar ôl ysgol, cyrsiau rhieni a sgiliau sylfaenol na allent ddigwydd heb y gwirfoddolwyr, y gweithwyr a'r cyfleusterau a ddarperir gan grwpiau ffydd ac eglwysi lleol.

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** A oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymateb i ymgynghoriad yr Ysgrifennydd Cartref am fethodoleg a defnydd un targed mesuradwy ar gyfer heddluoedd yng Nghymru, sef hyder y cyhoedd yng ngwasanaethau'r heddlu a'r awdurdod lleol ac a all y Gweinidog ddarparu copi o unrhyw ymatebion a wnaethpwyd ar y mater hwn? (WAQ53625)

**Brian Gibbons:** Mae fy natganiad ysgrifenedig ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Papur Gwyrdd "O'r Gymdogaeth i'r wlad gyfan: plismona ein cymunedau gyda'n gilydd" ar 12 Tachwedd yn cynnwys ein barn ar y defnydd o'r targed hyder i heddluoedd yng Nghymru. Nodais yn glir hefyd o ystyried y pwyslais cynyddol ar y broses o fonitro gwaith partneriaeth ac amlasiantaeth, y dylai'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cynulliad Cymru gydweithio i ystyried dichonoldeb Llywodraeth y Cynulliad yn cael rôl ffurfiol o ran pennu blaenoriaethau i bolisïau. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb am bennu targedau heddlu penodol a'r fethodoleg a ddefnyddir i'w cyfrifo a'u mesur yn parhau'n annatganoledig ac mae'n fater i'r Swyddfa Gartref. Nid ymgynghorwyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran y targedau a bennwyd i heddluoedd yng Nghymru, na'r fethodoleg a ddefnyddiwyd.

## Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

**Nick Ramsay (Mynwy):** Pa asesiad sydd wedi cael ei wneud o ôl troed carbon bwffes Charlton House? (WAQ53706)

**Comisiynydd y Cynulliad Cynaliadwy (Lorraine Barrett):** Nid oes asesiad wedi'i wneud o ôl troed carbon bwffes Charlton House. Darperir y bwyd ar gyfer bwffes fel rhan o'r gwasanaeth arlwyo mewnol cyffredinol ac fe wna Charlton House ei orau i ddefnyddio cyflenwyr lleol a Chymreig pan fo'n bosibl fel rhan o'u polisi caffael ac yn unol ag amcanion cynaliadwyedd y Cynulliad. Mae'r fanyleb arlwyo'n ei gwneud yn ofynnol i Charlton House weithredu i gefnogi Cynllun Caffael Bwyd y Sector Cyhoeddus (Defra 2003) sy'n cynnwys amcanion i ostwng effeithiau niweidiol cynhyrchu a chyflenwi bwyd ar yr amgylchedd.

Mae'r contract arlwyo hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Charlton House fabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol i leihau niwed i'r amgylchedd. Yn unol â hyn mae Charlton House wedi ennill achrediad ISO 14001 am y gwasanaeth arlwyo ym Mae Caerdydd. I gyflawni hyn datblygwyd system rheolaeth amgylcheddol am eu gweithrediadau ym Mae Caerdydd er mwyn gostwng effeithiau amgylcheddol eu gwaith yn systematig.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint o wastraff bwyd a waredir o'r Cynulliad ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53707)

**Lorraine Barrett:** Nid ydym yn cadw cofnod ar wahân o wastraff bwyd, a waredir fel rhan o'r casglu gwastraff swyddfa cyffredinol. Caiff cyfanswm ein gwastraff ei fonitro'n fisol ac ar gyfer 2007/08, anfonwyd 44 tunnell o wastraff i safle tirlenwi a 84 tunnell i'w ail-gylchu. Hyd yma mae canran y gwastraff a ailgylchir wedi gwella o 67% i 69%.

Mae'r contract arlwyo'n ei gwneud yn ofynnol i'n contractwr mewnol Charlton House ostwng gwastraff yn unol ag amcanion cynaliadwyedd a pholisi amgylcheddol y Cynulliad. Rydym wedi bod yn gweithio

gyda Charlton House i ystyried sut y gallwn ostwng ein gwastraff bwyd ymhellach ac rydym wedi ystyried pa mor ymarferol fyddai gosod compostiwr yn dilyn arolwg diweddar oedd yn rhoi cipolwg ar y sefyllfa. Mae materion i'w datrys ynglŷn â defnyddio a throsglwyddo compost fodd bynnag, ac rydym yn edrych arnynt ar hyn o bryd.

Mae'r contract arlwyo hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Charlton House fabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol i leihau niwed i'r amgylchedd. Yn unol â hyn mae Charlton House wedi ennill achrediad ISO 14001 am y gwasanaeth arlwyo ym Mae Caerdydd. I gyflawni hyn datblygwyd system rheolaeth amgylcheddol am eu gweithrediadau ym Mae Caerdydd er mwyn gostwng effeithiau amgylcheddol eu gwaith yn systematig.